# Cyngor Sir

Man Cyfarfod
**Cyfarfod Hybrid - Zoom - Neuadd y Sir**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Iau, 7 Rhagfyr 2023**

Amser y Cyfarfod
**10.30 am**

Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk

Dyddiad Cyhoeddi

Mae croeso i'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r Gymraeg. Os hoffech chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, gofynnwn i chi roi gwybod i ni erbyn hanner dydd ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod

## AGENDA

| | |
|---|---|
| **1.** | **YMDDIHEURIADAU** |

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| | |
|---|---|
| **2.** | **COFNODION** |

Awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 3 Hydref a 5 Hydref 2023 fel cofnodion cywir.
(Tudalennau 1 - 28)

| | |
|---|---|
| **3.** | **DATGANIADAU O DDIDDORDEB** |

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau yn ymwneud ag eitemau i'w hystyried ar yr agenda.

| | |
|---|---|
| **4.** | **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD** |

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan Gadeirydd y Cyngor.

| | |
|---|---|
| **5.** | **CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD** |

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd.

| 6. | BRIFF GAN Y PRIF WEITHREDWR |
|---|---|

Derbyn diweddariad gan y Prif Weithredwr.

| 7. | CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD |
|---|---|

7.1. **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Thrawsnewid Corfforaethol gan Nigel Williams**

Pa gosbau sy'n cael eu gosod ar benaethiaid adrannau sy'n methu â chwrdd â'r gofynion cyllidebol y maen nhw wedi cynnig ac eto y maen nhw'n methu â'u cyflawni bob blwyddyn? Mae'n ymddangos nad oes pwrpas gosod y targedau hyn, oherwydd eu bod yn ddiystyr ac yn cael eu hanwybyddu yn flynyddol gan rai penaethiaid adran.

(Tudalennau 29 - 30)

7.2. **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Powys Wyrddach gan Peter Foulkes**

Pam fod Cyngor Sir Powys mor gyndyn o drosi statws Cilffordd sy'n Agored i Bob Cerbyd (BOAT) Llwybr y Mynaich i fod yn llwybr ceffyl, wrth iddo groesi rhan Powys o'r Elenydd? Byddai diweddaru statws Hawl Tramwy Cyhoeddus y llwybr yn ateb amlwg i'r difrod ofnadwy sy'n dal i gael ei achosi ar y llwybr hynafol hwn, gyda rhan ohoni yn croesi Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNC).

(Tudalennau 31 - 32)

7.3. **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Powys Wyrddach gan John Williams**

O ystyried y tystiolaeth a ddarparwyd, a'r gefnogaeth enfawr ar gyfer newid y 2 ffordd yma yn ôl i 30 mya, pryd y gellir gweithredu hyn? (gweler y cefndir sydd wedi'i atodi fel amgaead).
(Tudalennau 33 - 38)

7.4. **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Powys Wyrddach gan Ian a Jane Whyte**

Rydym yn rhedeg safle glampio bach ond prysur rhwng Llansantffraid a Llanfechain

gan ddenu gwersyllwyr o bob cwr o'r wlad ac Ewrop.

Dro ar ôl tro, rydym yn derbyn adborth negyddol am gyflwr gwael y llwybrau cyhoeddus yn ein hardal gyfagos, yn benodol oherwydd diffyg arwyddion, gatiau mynediad wedi'u cloi, llwybrau gyda llystyfiant wedi ymledi a pherchnogion tir ymosodol.

Yn sicr, mae angen i ni ddenu cymaint o dwristiaid â phosibl i'n hardal brydferth a'u hannog i ddychwelyd. Hefyd, rwy'n siŵr y byddai pob cerddwr lleol wrth eu bodd yn gallu cael mwy o fynediad i'n llwybrau troed cefn gwlad.

Cwestiwn syml... pam nad oes gwaith cynnal a chadw sylfaenol ar y llwybrau troed hyn a sut y gellir datrys y broblem hon?
(Tudalennau 39 - 40)

| 8. | TROSGLWYDDIADAU'R GYLLIDEB |
|---|---|

Ystyried trosglwyddiadau'r gyllideb sydd angen eu cymeradwyo gan y Cyngor.
(Tudalennau 41 - 42)

| 9. | YSTYRIED SYSTEM BLEIDLEISIO SENGL DROSGLWYDDADWY |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan yr Arweinydd, Cynghorydd Sir James Gibson-Watt.
(Tudalennau 43 - 120)

| 10. | ADOLYGU ARDALOEDD PLEIDLEISIO A MANNAU PLEIDLEISIO |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro.

(Tudalennau 121 - 124)

| 11. | PENODIADAU I GYRFF ALLANOL |
|---|---|

Ystyried gwneud penodiadau i'r canlynol -

1. **Cronfa Waddol Gymunedol Powys**
   Mae'r panel hwn, sy'n cynnwys dau Gynghorydd o bob un o'r ardaloedd sirol hanesyddol, yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i roi grantiau i grwpiau ac unigolion o gronfeydd a arferai gael eu rheoli gan y Cyngor. Mae yna le gwag i aelod o Sir Faesyfed - mae'r Cynghorydd Sir Geoff Morgan wedi cael ei enwebu.

2. **Cyfeillion yr Eglwys y Santes Fair Aberhonddu**
   Gofynnwyd i'r Cyngor benodi aelod. Mae'r Cynghorydd Sirol Chris Walsh wedi cael ei enwebu.

| 12. | HYSBYSIAD O GYNNIG - GWERTHU FFERMYDD |
|---|---|

Rydym yn galw ar y Cyngor i ofyn i'r Cabinet ymatal ar unwaith rhag ystyried unrhyw gynigion i'r dyfodol yn y flwyddyn ariannol gyfredol i werthu ffermydd hyd nes y bydd y Cyngor Llawn wedi cymeradwyo Polisi Ffermydd Sirol sydd wedi ei graffu'n briodol ac sy'n cynnwys polisi eglur a phenodol ar waredu/gwerthu ffermydd ac eiddo fferm sy'n eiddo i'r cyngor.

Rydym yn galw am hyn oherwydd:

- Yr ansicrwydd parhaus sy'n cael ei achosi i holl denantiaid Ffermydd y Sir sy'n effeithio ar eu gallu i gynllunio'n effeithiol ar gyfer eu busnes, bywoliaeth ac anghenion tai yn y dyfodol;

- Y pryder yw heb bolisi eglur o'r fath, y bydd symud ymlaen gyda gwerthu ffermydd yn dwyn anfri ar y Cyngor; a'r

- Pryder yw heb bolisi eglur o'r fath ac wedi'i graffu'n drylwyr, bod penderfyniadau'n cael eu gwneud nad yw'n werth gorau i'r Cyngor na'r defnydd gorau o adnoddau cyhoeddus.

Cynigwyd gan y Cynghorydd Sir Amanda Jenner
Eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Gareth D Jones

**Asesiad Ariannol**

Mae'r rhan fwyaf o'r eiddo sydd wedi cael ei werthu hyd yma wedi dod o eiddo gwag nad oedd yn hyfyw i'w ailosod yn eu cyflwr presennol a faint o dir i greu busnes hyfyw. Lle bo hynny'n bosibl, mae tir wedi'i ailddyrannu i ffermydd cyfagos i gynyddu'r hyfywedd, wrth leihau atebolrwydd cynnal a chadw'r cyngor a pharhau i gynnal ffrwd rhent reolaidd o'r ystâd ffermydd sy'n weddill.

Dros y tair blynedd diwethaf mae rhesymoli ffermydd a thir fferm wedi cynhyrchu £2,875,500 mewn gwerthiannau, gyda £406,000 pellach wedi'i dderbyn hyd yma yn 2023/24. Defnyddir yr arian hwn (derbyniadau cyfalaf) i gefnogi gwariant cyfalaf y Cyngor gan leihau'r angen i fenthyca ac arbed costau refeniw.

| | Tir ac Adeiladau | Tir yn unig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **2020/21** | 715,000 | 15,000 | 730,000 |
| **2021/22** | - | 400,000 | 400,000 |
| **2022/23** | 1,008,500 | 737,000 | 1,745,500 |
| **Cyfanswm** | **1,723,500** | **1,152,000** | **2,875,500** |
| **2023/24 to 31/10/23** | 350,000 | 56,000 | 406,000 |
| **Cyfanswm** | **2,073,500** | **1,208,000** | **3,281,500** |

Gan ddefnyddio'r £3,281,500 o dderbyniadau cyfalaf uchod yn hytrach na benthyca i ariannu rhaglen gyfalaf y cyngor, bydd yn arbed amcangyfrif o £197,000 y flwyddyn i'r gyllideb refeniw mewn costau benthyca is, dros 50 mlynedd cyfanswm yr arbediad fydd £9,850,000.

Ar hyn o bryd mae ystâd fferm y cyngor yn cynnwys daliadau sydd eisoes wedi'u cymeradwyo i'w gwerthu o £5,725,000.

Mae daliadau gwag eraill o £600,000 (sy'n gofyn am fuddsoddiad o tua £100,000 cyn y gellir eu hail-osod) a chyfleoedd ychwanegol pellach ar gyfer rhesymoli a fyddai, pe byddent yn cael eu rhyddhau, yn cynhyrchu derbyniadau cyfalaf ychwanegol a amcangyfrifwyd yn £2,757,000. Mae'r rhain yn cynnwys fferm lle mae'r tenant wedi marw

yn ddiweddar, darnau eraill o dir ar wahân a darn penodol o dir sydd ei angen i gefnogi'r prosiect Ffyniant Bro yn Nhrefaldwyn.

Os caiff ei gymeradwyo, bydd y cynnig hwn yn atal rhyddhau'r amcangyfrif o £3,357,000 o dderbyniadau cyfalaf (a amlinellir uchod) o ffermydd sydd heb eu meddiannu ar hyn o bryd, tra'n cynnal ac mewn rhai achosion yn cynyddu atebolrwydd y cyngor am yr eiddo hyn gan nad yw nifer mewn cyflwr i'w hail-osod neu ni fyddent yn gwneud busnesau hyfyw yn symud ymlaen oherwydd eu maint. Byddai hyn hefyd yn effeithio ar unrhyw eiddo pellach sy'n dod yn wag oherwydd amryw o resymau, e.e. ildio prydles gan denant, marwolaeth tenant, telerau prydles tenantiaid yn dod i ben (lle nad yw tymor pellach yn rhan o'r cytundeb presennol).

Mae cael eiddo gwag/gwarged heb eu meddiannu yn golygu rhagor o gostau i'r Cyngor i'w cynnal. Byddai yswiriant, treth y cyngor ac archwiliadau rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau'n ddiogel yn parhau os na ellir symud ymlaen â'r gwerthiant. Mae perygl hefyd o ddifrod i eiddo gwag, fandaliaeth, gollyngiadau a difrod arall, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.

Gan ddefnyddio'r amcangyfrif o £3,357,000 o dderbyniadau cyfalaf yn hytrach na benthyca i ariannu rhaglen gyfalaf y cyngor yn arbed tua £201,000 y flwyddyn i'r gyllideb refeniw mewn costau benthyca is, dros 50 mlynedd cyfanswm yr arbediad yw £10,050,000.

Dylid nodi bod y cynnig hwn yn mynd yn erbyn **Polisi Asedau Corfforaethol** y cyngor sy'n nodi: "*Er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Gwella Corfforaethol, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i resymoli ei adeiladau a'i dir yn brydlon ac yn barhaus.*" (3-A 1.1)

Mae'r cynnig hefyd yn clymu dwylo'r cyngor wrth wneud penderfyniadau pellach gan fod tenantiaethau sydd i fod i ddod i ben yn fuan yn destun adolygiad.

Ni ellir tanbrisio'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod y blynyddoedd nesaf ac ni chynghorir newid polisi yn annibynnol nawr heb ystyried goblygiadau ehangach cynnig y gyllideb lawn.

| 13. | HYSBYSIAD O GYNNIG - FFIOEDD CYNLLUNIO |
|---|---|

## Cefndir

Yn rhinwedd fy swydd fel yr Aelod Portffolio sy'n gyfrifol am Gynllunio yng Nghyngor Sir Powys, rwyf wedi ysgrifennu tair gwaith at Julie James, y Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio, ond heb dderbyn ateb.

Rwyf bellach yn chwilio am y difrifwch ychwanegol, sy'n dod gyda chefnogaeth y Cyngor hwn, i ofyn unwaith eto bod Gwasanaeth Cynllunio Powys yn cael yr hawl i osod ei ffioedd ei hun i'w roi ar y llwybr i adennill ei gostau llawn.

Mae'r sefyllfa ariannol ansicr sy'n wynebu economi'r Deyrnas Unedig a chyllid cyhoeddus yng Nghymru yn cael cyhoeddusrwydd mawr ac yn glir i bawb ei gweld. Mae Cyngor Powys yn trawsnewid ei hun mewn ymgais i ddarparu gwasanaethau ar sail gynaliadwy ac eto nid yw incwm cynyddol o ffioedd, mewn ystod o wasanaethau gan gynnwys cynllunio, yn opsiwn heb ymyrraeth gadarnhaol gan Gaerdydd.

Mae effaith ffosffadau ar ystod o geisiadau cynllunio, a'r rheolau sy'n llywodraethu datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol; sy'n cael eu trosglwyddo i PEDW, wedi effeithio'n ddifrifol ar incwm ffioedd cynllunio Powys ac eto mae gwaith nad yw'n ennill ffioedd fel gorfodaeth gynllunio, wedi parhau i fod yn fywiog, gan gyfrannu at bwysau cyllidebol difrifol.
Mae POSW, Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru wedi lobïo gweision sifil yn yr un modd am gynnydd mewn ffioedd a chamau pellach tuag at adennill costau, ond heb lwyddiant. Mae adolygiad yn Lloegr wedi arwain at gynnydd mewn ffioedd o fis Ebrill 2024 ac mae angen yr adolygiad hir-ddisgwyliedig yng Nghymru bellach i ailgydbwyso'r drefn codi tâl i sicrhau bod y rhai sy'n torri'r rheolau yn talu eu ffordd, yn ogystal ag ymgeiswyr, yn hytrach na chostau gorfodi yn disgyn ar drethdalwyr sydd o dan straen, a thrwy hynny hyrwyddo mwy o degwch yn ein cymunedau.

## Felly mae'r Cyngor hwn

Yn gwahodd y Gweinidog i adolygu'r rheoliadau ffioedd ar gyfer Gwasanaethau Cynllunio ar frys i ganiatáu ffioedd lleol i gael eu pennu'n lleol a bod yr egwyddor o adennill costau llawn ar gyfer Rheoli Datblygu yn cael ei gyflawni, ac i ystyried y cynigion canlynol:

- Bod ffioedd ceisiadau cynllunio yn seiliedig ar adennill costau llawn, a'u bod yn cael eu diwygio'n flynyddol yn unol â chwyddiant.

- Dylid dileu ceisiadau "ail gais" am ddim ar ôl tynnu'n ôl neu wrthod gyda ffi o 50% yn lle hynny. Byddai hyn yn hyrwyddo ymgysylltu cyn ymgeisio a chyflwyniadau ceisiadau cynllunio cychwynnol o ansawdd gwell, tra'n mynd i'r afael â chost ariannol o brosesu ceisiadau sy'n cael eu hailgyflwyno.

- Pan fo perchennog tir yn torri rheolaeth gynllunio, dyblu'r ffi am geisiadau ôl-weithredol, lle mae datblygiad wedi mynd yn ei flaen heb gais am ganiatâd cynllunio.

- Ffioedd ceisiadau cynllunio yn seiliedig ar adennill costau llawn, a'u bod yn cael eu diwygio'n unol â chwyddiant.

- Pan fo perchennog tir yn torri rheolaeth gynllunio ond yn gwrthod cyflwyno cais ôl-weithredol ac nad yw camau gorfodi yn hwylus, rhoddir pwerau i'r Awdurdod Cynllunio lleol ddirwyo'r sawl sydd wedi tramgwyddo, o bosibl ddyblu'r ffi cais cynllunio perthnasol.

- Dileu'r gofyn i hysbysebu ceisiadau cynllunio unigol yn y cyfryngau argraffedig neu drosglwyddo'r gost o wneud hynny i ymgeiswyr.

- Oni bai eu bod yn cael eu hariannu'n briodol, ni ddylai fod yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio gyflwyno Adroddiad Effaith Lleol ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, (Nid yw cytundebau perfformiad cynllunio gyda datblygwyr yn cynnwys y cyfle i adennill costau llawn) ac ni ddylai fod yn "ofynnol" iddynt fynychu Archwiliad Cyhoeddus.

- Mae'n ofynnol i dirfeddianwyr sy'n hyrwyddo safleoedd o fewn y CDLl dalu ffi briodol. Bydd hyn nid yn unig yn helpu'r Cyngor yn ariannol ond y gobaith yw y bydd yn sicrhau bod y rhai sy'n cyflwyno safleoedd o ddifrif ynglŷn â'u cyflawni a'r manteision y byddai'r dyraniadau, ar gyfer tai fforddiadwy ac ati yn dod i'n cymunedau.

Cynigir gan y Cynghorydd Sir Jake Berriman

Eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Karl Lewis

| **Asesiad Ariannol** |
|---|
| Y cynnig yw lobïo Llywodraeth Cymru a gellir ei reoli o fewn adnoddau presennol. Bydd swyddogion yn gallu darparu cymorth ar gyfer y gweithgaredd hon fel rhan o'u rôl. |

| 14. | HYSBYSIAD O GYNNIG - DYNODI PARC CENEDLAETHOL NEWYDD |
|---|---|

## Nodiadau'r Cyngor

1. Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy eisoes yn bodoli.
2. Yr ymrwymiad yn y rhaglen Llywodraeth LB/PC i greu Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.
3. Cyhoeddi dogfennau cyfarwyddyd ar gyfer Prosiect Dynodi Parc Cenedlaethol Gogledd Ddwyrain Cymru ar 18 Gorffennaf gyda chais i GNC i edrych ar yr achos dros Barc Cenedlaethol newydd.

Mae'r Cyngor am fynegi pryder bod

1. Y ffin ymgynghori wedi'i hymestyn ymhell y tu hwnt i'r hyn sydd yn Rhaglen y Llywodraeth i gynnwys ardal fawr o Sir Drefaldwyn cyn belled i'r de â Llangadfan a Llanerfyl ar yr A458.

2. Mae gan y dynodiad arfaethedig newydd hwn y potensial i gynyddu'r pwysau ar brisiau tai, mwy o bwysau twristiaeth gyda chreu potiau mêl a thagfeydd mewn ardal o seilwaith ffyrdd cyfyngedig, ac ansicrwydd pellach i'r gymuned ffermio.

3. Gyda'r Parciau Cenedlaethol presennol eisoes yn wynebu toriadau a phwysau ariannol, mae'n anochel felly y bydd creu awdurdod lleol ychwanegol yn ei hanfod yn tynnu o'r un pot o arian sy'n lleihau o hyd ac o hyd a bydd hyn ar draul trigolion a busnesau ym Mhannau Brycheiniog.

Mae'r Cyngor o'r farn

1. O ystyried y pwysau ariannol aruthrol ar lywodraeth leol gyda Powys yn gorfod arbed tua £18m y flwyddyn nesaf, mae'n anodd cyfiawnhau creu awdurdod arall fydd yn cynyddu'r galw am adnoddau yn y blynyddoedd i ddod.

2. Bydd y gynrychiolaeth gymharol fach o Bowys ar bwyllgorau yn arwain at ddiffyg democrataidd o ran penderfyniadau cynllunio a datblygu economaidd.

## Bod y Cyngor yn penderfynu

Gwrthwynebu’n ffurfiol cynnwys ardaloedd o Bowys yn ardal y Parc Cenedlaethol newydd ac yn argymell uchafswm ffin ddeheuol yn seiliedig ar ffin y sir a chribau copaon Bryniau Berwyn.

Cynigir gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan
Eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Bryn Davies

**Asesiad Cyllid**
Mae'r cynnig sy'n cael ei gynnig yn gofyn am eithrio unrhyw rannau o Bowys rhag cael eu cynnwys yn y parc cenedlaethol newydd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Nid yw'n ymddangos bod angen cymryd unrhyw gamau pellach o'r cynnig hwn, felly ni ddylai fod unrhyw gost ariannol ychwanegol.

**Bydd yr eitem ganlynol yn cael ei gymryd am 12.00 p.m.**

| 15. | CYFLWYNIAD GAN Y PRIF SWYDDOG TÂN |
|---|---|

Derbyn cyflwyniad gan y Prif Swyddog Tân, Roger Thomas.

**Ar ol y cyfarfod bydd y Prif Weithredwr yn briffio'r Cynghorwyr ar y Strwythur Arwain Corfforaethol**